
# Mae Lasarus yn fyw

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (cyf. Andy Hughes) Lluniau: Richard Gunther




**Roedd gan Iesu rai ffrindiau arbennig,**
**Mair, Martha a'u brawd Lasarus,**
**yn nhref Bethania.**
**Byddai Iesu'n aml yn aros gyda nhw.**



**Un diwrnod, roedd Iesu yn Jerwsalem**
**pan ddaeth rhywun o dref Bethania**
**i ddweud wrtho fod ei ffrind**
**Lasarus yn sâl.**



**Ddeuddydd yn ddiweddarach aeth Iesu**
**a'i ffrindiau i Fethania i'w weld,**
**ond roedd Iesu wybod fod**
**Lasarus wedi marw.**



**Rhedodd Martha i gyfarfod Iesu.**
**“Pe bae ti wedi bod yma, ni fyddai fy mrawd wedi marw.” Meddai, “Ond dw i’n gwybod, dydy hi ddim yn rhy hwyr. Ti'n gallu gwneud unrhyw beth”**



**“Bydd Lasarus yn fyw,”**
**meddai Iesu wrthi.**
**“Dos i nôl dy chwaer, Mair.”**
**Roedd Iesu yn gwybod fod Mair yn y tŷ.**



**Roedd Iesu yn drist. Lasarus oedd ei ffrind.**
**Aethant i'r ogof lle claddwyd Lasarus.**
**“Tynnwch y garreg i ffwrdd,” meddai Iesu.**
**“Bydd yn drewi, mae wedi bod yn farw ers pedwar diwrnod,” medden nhw.**



**“Os wyt ti’n credu, fedrwch chi weld beth**
**all Duw ei wneud,” atebodd Iesu.**
**“Lasarus tyrd allan!” galwodd Iesu.**
**Daeth Lasarus allan, wedi’i lapio mewn rhwymynnau**



**Tynnodd Martha a Mair y rhwymynnau i ffwrdd.**
**Roedden nhw mor hapus bod Lasarus yn fyw!**
**Roedd llawer, a welodd y wyrth hon â'u llygaid eu hunain,**
**yn credu mai Iesu oedd Mab Duw.**